# LC1322

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol 2006

Mae’r Datganiad hwn yn diwygio’r Datganiad o’r enw Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol a gyhoeddwyd ar 17 Ebrill 2002.

Cyflwynir y Datganiad hwn i’r Pwyllgor Deddfau o dan Reol Sefydlog 29.3(ii).

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwynt canlynol o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae Adran 23(1) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn galluogi’r Cynulliad i baratoi a chyhoeddi datganiadau safonau gofynnol cenedlaethol sy’n gymwys i sefydliadau neu asiantaethau. Mae Adran 23 (3) yn ei gwneud yn ofynnol i’r Cynulliad ymgynghori ag unrhyw unigolion y cred eu bod yn briodol cyn cyhoeddi datganiad neu ddatganiad sydd wedi’i ddiwygio sy’n achosi newid sylweddol yn y safonau. Mae’r cyfreithiwr a ddrafftiodd y datganiad wedi cadarnhau yr ymgynghorwyd ar y newidiadau i’r Datganiad ar yr un pryd â Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol ac Amrywiol (Cymru) (Diwygio) 2006. Credir y dylid diwygio’r rhaglith er mwyn sicrhau ei fod yn glir y cynhaliwyd ymgynghoriad o dan adran 23(3). [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Gellir cywiro’r mân wall ddrafftio a nodir uchod drwy Femorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Hysbyswyd y cyfreithiwr a ddrafftiodd y datganiad ynghylch y pwyntiau fformadu sy’n addas i’w cywiro wrth gyhoeddi.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 20 Mehefin 2006